Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Llwyn Yr Eos**
**Penparcau**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 1SH**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Llwyn Yr Eos

Mae Ysgol Llwyn yr Eos ym Mhenparcau ar gyrion Aberystwyth yng Ngheredigion. Mae 257 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys 39 o ddisgyblion oedran meithrin rhan-amser. Maent wedi eu rhannu'n un deg tri dosbarth, y mae pedwar ohonynt yn ddosbarthiadau canolfan adnoddau anghenion addysgol arbennig. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion ag anghenion penodol o ardaloedd amrywiol ledled Ceredigion. Mae gan ddisgyblion yn nosbarthiadau'r ganolfan adnoddau ystod o anghenion cymdeithasol, meddygol a chyfathrebu.

Cyfran gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf yw tua 31%. Mae hyn gryn dipyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Mae ychydig iawn o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol ac mae ychydig iawn ohonynt yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan 39% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd gryn dipyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae gan ychydig o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Mai 2003, ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2013.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da, a da iawn yn aml, o'u gwahanol fannau cychwyn wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd diogel, eithriadol o ofalgar a hynod gynhwysol ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos lefelau lles eithriadol o uchel. Ceir perthnasoedd gwaith cynnes ac ymddiriedus rhwng disgyblion a staff, ac mae hyn yn helpu bron pob un o'r disgyblion i deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddysgwyr hyderus sydd â llawer o hunan-barch. Maent yn mwynhau'r ysgol, ac yn dangos agweddau cadarnhaol iawn at eu dysgu.

Caiff y cyfuniad llwyddiannus o strategaethau addysgu effaith eithriadol o gadarnhaol ar gyflawniad a lles disgyblion.

Mae'r pennaeth yn ymgysylltu'n llwyddiannus â phob un o'r staff i greu ethos ysgol gyfan sy'n rhoi lles disgyblion wrth wraidd ei gwaith. Mae pob un o'r staff yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol, ac yn wybodus am ei pherfformiad.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau mewn Cymraeg fel ail iaith, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu creadigol ac estynedig

A3 Gwella cyflwyniad gwaith disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â’r defnydd hynod effeithiol o wybodaeth asesu wrth nodi’r cam nesaf yn nysgu plentyn, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau’r ysgol gyda medrau iaith, rhifedd a chymdeithasol sydd islaw’r rheiny a ddisgwylir ar gyfer disgyblion o’u hoedran nhw. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da, a chynnydd da iawn, yn aml, o’u gwahanol fannau cychwyn wrth iddynt symud trwy’r ysgol a chyflawni safonau disgwyliedig. Mae hyn yn cynnwys disgyblion sy’n mynychu dosbarthiadau’r ganolfan adnoddau, a’r rheiny y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Yn y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau cyfathrebu da. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn gwrando’n ofalus ar gyfarwyddiadau, ac yn mynegi eu barn yn glir. Maent yn awyddus i ddisgrifio’r hyn y maent yn ei wneud, er enghraifft wrth brynu cynhwysion i greu offer bwydo adar. Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando’n astud. Maent yn mynegi eu barn yn glir, ac yn cyfrannu’n dda at drafodaethau.

Mae medrau darllen disgyblion yn datblygu’n dda wrth iddynt symud trwy’r ysgol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen gyda mynegiant a dealltwriaeth dda. Maent yn siarad am eu hoff gymeriadau ac yn galw storïau cyfarwydd i gof yn dda. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio ystod addas o strategaethau i ddarllen geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 yn trafod plotiau yn synhwyrol, ac yn dechrau cyfiawnhau rhesymau dros ddewis hoff gymeriadau. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn dda i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ymchwilio i wybodaeth am ddinasoedd Cymru gan ddefnyddio atlasau, gwefannau perthnasol a chyfeirlyfrau.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ysgrifennu ar gyfer ystod o wahanol gynulleidfaoedd a dibenion. Yn y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o greu marciau cynnar i ysgrifennu dilyniannau ystyrlon o frawddegau. Ym Mlwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu llythyrau, cofnodion dyddiadur a barddoniaeth, gan gyflwyno eu gwaith mewn fformat addas. Defnyddiant atalnodi syml â graddau rhesymol o gywirdeb. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn sillafu geiriau anghyfarwydd yn gywir ac yn defnyddio atalnodi mwy cymhleth yn gywir. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau ysgrifennu creadigol ac estynedig yn llawn. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn aml yn cyflwyno’u gwaith yn anniben.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau Cymraeg llafar. Maent yn ymateb yn gymwys i gyfarwyddiadau a chwestiynau ac yn defnyddio ystod gyfarwydd o ymadroddion yn briodol. Fodd bynnag, nid yw’r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud digon o gynnydd o ran defnyddio’r Gymraeg yn eu gwaith ac mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol. Megis dechrau datblygu y mae medrau darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg mwyafrif y disgyblion.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau mathemategol a rhifedd wrth iddynt symud trwy’r ysgol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o fedrau rhif ac maent yn adio a thynnu’n gywir gan ddefnyddio degau ac unedau. Maent yn mesur yn gywir wrth ddefnyddio mesuriadau safonol ac ansafonol, er enghraifft wrth gymharu hyd dail. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau’n dda mewn meysydd dysgu eraill. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu’n llwyddiannus ar y sylfaen gadarn hon. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn cymhwyso eu strategaethau cyfrif yn y pen yn effeithiol gan ddefnyddio’r pedair rheol rhif wrth ddatrys tasgau yn seiliedig ar amserlen fysiau. Mewn gwyddoniaeth, maent yn cyflwyno graffiau llinell yn gywir i ddangos effaith ymarfer corff ar y galon.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol i gefnogi eu gwaith. Yn y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda ac yn gwneud defnydd pwrpasol o godau QR mewn perthynas â’u gwaith ar bictogramau. Mae ganddynt fedrau prosesu geiriau da i greu lluniau diddorol i ddangos eu storïau a’u cerddi am yr hydref. Ym Mlwyddyn 2, maent yn cynhyrchu ffilmiau diddorol yn seiliedig ar eu gwaith ymchwil ar adar. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un o’r disgyblion yn defnyddio’r rhyngrwyd yn bwrpasol ac yn ddiogel i ymchwilio i wybodaeth sy’n gysylltiedig â’u testun. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn creu cyflwyniadau diddorol i hysbysebu eu model o gar sy’n hedfan. Ym Mlwyddyn 6, mae disgyblion mwy abl yn datblygu medrau codio ar lefel uchel i greu gemau ar-lein.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o’r disgyblion yn dangos lefelau lles eithriadol o uchel. Mae perthnasoedd gwaith rhwng disgyblion a staff yn gynnes ac ymddiriedus, ac mae hyn yn helpu bron pob un o’r disgyblion i deimlo’n ddiogel a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn gwbl ymwybodol o beth i’w wneud os byddant yn poeni neu’n pryderu. Nodwedd gref iawn yn yr ysgol yw’r parch a’r cwrteisi y mae disgyblion yn eu dangos tuag at ei gilydd, oedolion ac ymwelwyr.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn rheoli eu teimladau a’u hymddygiad yn eithriadol o dda. Maent yn gwrtais iawn, mae ganddynt foesau da ac maent yn dangos llawer o ofal am bobl eraill. Mae disgyblion hŷn yn dangos ystyriaeth a gofal tuag at ddisgyblion iau amser egwyl. Mae hyn yn cryfhau’r ethos teuluol cryf sy’n bodoli yn yr ysgol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddysgwyr hyderus sydd â lefelau uchel o hunan-barch. Maent yn mwynhau’r ysgol ac yn dangos agweddau cadarnhaol iawn at eu dysgu. Maent yn ymdawelu’n gyflym mewn gwersi ac yn symud rhwng tasgau yn synhwyrol ac yn effeithlon. Maent yn canolbwyntio’n dda ac yn dangos llawer o wydnwch pan fyddant yn wynebu tasgau heriol.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn gweithio’n hynod effeithiol gyda’u cyfoedion mewn grwpiau a pharau, ac yn dangos llawer o aeddfedrwydd a pharch tuag at farn pobl eraill. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu’n llwyddiannus tuag at yr hyn yr hoffent ei ddysgu am bobl sy’n eu helpu. Mae disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn dewis llwybrau dysgu dychmygus er mwyn cwblhau tasgau estynedig, fel dewis gwahanol newidynnau wrth ymchwilio i

yriant hofrennydd papur wrth iddo ddisgyn i'r ddaear.  Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gynyddol o ba mor dda y maent yn gwneud, a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif, ac yn cyfrannu'n dda at fywyd a gwaith yr ysgol.  Mae aelodau o'r cyngor ysgol yn trefnu gweithgareddau fel y filltir ddyddiol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar lefel ffitrwydd llawer o ddisgyblion  Maent yn llwyddo i hyrwyddo'r defnydd o gwpanau amldro i arbed gwastraff plastig.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r angen i arbed ynni a gwarchod yr amgylchedd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel.  Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn disgrifio sut i aros yn ddiogel ar-lein yn hyderus.  Maent yn deall yn glir beryglon posibl gwneud ffrindiau newydd ar-lein, ac yn trafod hynny.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau iach wrth ddewis byrbryd a chynnwys cinio pecyn.  Yng nghyfnod allweddol 2, maent yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n heini ac yn deall bod gan ymarfer corff ran allweddol mewn cadw'n iach.  Maent yn mwynhau cyfleoedd i nofio a chymryd rhan mewn ystod eang o chwaraeon yn fawr iawn.

**Addysgu a phrofiadau dysgu:  Da**

Caiff y cyfuniad llwyddiannus o strategaethau addysgu effaith hynod gadarnhaol ar gyflawniad a lles disgyblion.  Mae athrawon yn cynllunio'n fedrus ac yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o ddulliau addysgu.  Maent yn esbonio syniadau newydd yn ofalus ac yn ymestyn dysgu disgyblion trwy dasgau ymarferol yn dda.  Maent yn gofyn cwestiynau pwrpasol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion, ac yn eu hannog i ddefnyddio eu medrau meddwl trwy gydol y wers.  Mae cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n unigol, mewn parau ac mewn grwpiau yn ennyn eu diddordeb a'u chwilfrydedd tuag at ddysgu yn dda, ac yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith.

Mae athrawon a staff cymorth yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion ar lafar ac yn eu holi'n effeithiol i archwilio eu dealltwriaeth.  Mae hyn yn eu hannog i fyfyrio ar eu dysgu a gwerthuso eu hymdrechion yn rheolaidd.  Pan fo'n briodol, mae athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig adeiladol i ddisgyblion hefyd, sy'n eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth dda o ba mor dda y maent yn gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.  Mae pob un o'r staff ar draws yr ysgol yn defnyddio gwybodaeth o asesiadau o waith disgyblion yn effeithiol iawn i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu.  Mae hyn yn gryfder penodol.

Mae pob un o'r staff yn cynnal perthnasoedd gwaith cadarnhaol iawn gyda disgyblion, ac mae ganddynt ddisgwyliadau cyson uchel o'u hymddygiad.  Mae hyn yn annog lefel uchel o barch, cwrteisi ac ymddiriedaeth.  Mae pob un o'r staff yn creu amgylchedd dysgu eithriadol o gefnogol ac ysgogol yn eu dosbarthiadau.  Mae staff cymorth dysgu ar draws yr ysgol yn cyfrannu'n effeithiol iawn at gynorthwyo athrawon i wella safonau yn nysgu disgyblion.  Mae staff yn nosbarthiadau'r ganolfan adnoddau yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn iawn ynglŷn â sut orau i gefnogi anghenion dysgu amrywiol eu disgyblion.

Mae staff yn y cyfnod sylfaen yn darparu cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau ffocysedig a pharhaus. Maent yn rhoi cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ymchwilio, chwarae rôl ac ymarfer eu medrau corfforol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys. Mae athrawon yn cynllunio'n greadigol i adeiladu'n systematig ar y medrau y mae disgyblion yn eu datblygu yn y cyfnod sylfaen. Mae athrawon yn trefnu profiadau dysgu diddorol a dychmygus i ddisgyblion, fel y gwaith am adar yn y gaeaf, ac effaith disgyrchiant ar yriant. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gynnig awgrymiadau a syniadau ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei astudio ar ddechrau pob testun.

Mae athrawon yn nodi llawer o gyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd a TGCh i gefnogi ac ymestyn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol iawn. Mae rhaglenni ymyrraeth cynlluniedig yn galluogi'r disgyblion hyn i wneud cynnydd da iawn yn eu dysgu. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r cyfleoedd a gaiff disgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu creadigol ac estynedig ar draws y cwricwlwm.

Mae'r cynllun gwaith ar gyfer Cymraeg yn dechrau bod yn effeithiol o ran datblygu medrau siarad a gwrando disgyblion, o ran ennyn eu diddordebau ac o ran meithrin agweddau cadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer darllen ac ysgrifennu yr un mor effeithiol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru yn bwrpasol, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn Eisteddfodau, a gwaith ar Santes Dwynwen a Dewi Sant. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth disgyblion ac yn ennyn eu diddordeb yn nhraddodiadau, diwylliant a hanes Cymru yn llwyddiannus.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd diogel, eithriadol o ofalgar a hynod gynhwysol ar gyfer pob disgybl. Y perthnasoedd cadarnhaol iawn rhwng staff a disgyblion, sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth ar y ddwy ochr, sydd wrth wraidd cymuned yr ysgol. Mae ethos meithringar yr ysgol yn sicrhau y gall disgyblion ffynnu a dysgu'n llwyddiannus. Mae athrawon a staff cymorth yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn darparu lefelau cymorth o ansawdd uchel i sicrhau eu lles corfforol ac emosiynol. Mae'r sesiynau cofrestru dyddiol yn sicrhau'n llwyddiannus fod disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn barod i ddysgu.

Mae gan yr ysgol systemau cynhwysfawr ac eithriadol o dda i olrhain a monitro cynnydd, lles ac ymddygiad disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae'r staff yn y dosbarthiadau prif ffrwd a'r canolfannau adnoddau yn defnyddio'r prosesau hyn yn llwyddiannus ac yn greadigol. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio arbenigedd staff yn effeithiol ar draws yr ysgol gyfan, a'r trefniadau addysgu hyblyg. Caiff yr holl ddisgyblion eu cyfeirio at athrawon penodol, gwersi penodol a grwpiau ymyrraeth i ymateb yn uniongyrchol i'w hanghenion canfyddedig. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn, maent yn ymddwyn yn dda ac yn ddysgwyr hyderus a gwydn. Caiff cynnydd yr holl ddisgyblion ei adolygu bob pythefnos, ac mae staff yn ymateb yn gyflym i addasu trefniadau a rhaglenni gwaith, os bydd angen. Mae'r arfer ragorol hon yn sicrhau bod yr ysgol yn darparu cymorth pwrpasol, o ansawdd uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn hynod effeithiol. Mae staff yn cyflwyno ystod dda o raglenni ymyrraeth targedig i wella medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr a chynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed. Un o gryfderau penodol yr ysgol yw natur hyblyg y trefniadau ymyrraeth hyn. Mae addysgu o ansawdd da a monitro cynnydd yn ofalus yn sicrhau bod disgyblion yn cael cymorth ychwanegol am y cyfnod y mae ei angen arnynt yn unig, er mwyn iddynt wneud cynnydd digonol. Mae cynllun addysg gan bob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n cynnwys targedau mesuradwy a heriol. Caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd gan staff a rhieni, a'u haddasu yn ôl yr angen. Mae staff yn annog disgyblion i gydnabod yr heriau sy'n eu hwynebu ac yn eu helpu i nodi'r ffurf fwyaf addas o gymorth sydd ei hangen arnynt. Mae'r arfer eithriadol o dda hon yn sicrhau bod disgyblion yn cymryd perchnogaeth o'u dysgu eu hunain, ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar eu hyder a'u hunan-barch.

Mae staff yn y canolfannau adnoddau ac yn y dosbarthiadau prif ffrwd yn gweithio'n effeithiol iawn gydag asiantaethau allanol i gynllunio a chyflwyno cyfleoedd dysgu a chymorth ffocysedig hynod lwyddiannus ar gyfer disgyblion.

Mae staff a disgyblion, fel ei gilydd, yn elwa ar y perthnasoedd gwaith rhagorol a'r trefniadau llyfn rhwng y dosbarthiadau adnoddau arbenigol a'r brif ysgol. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod pob disgybl yn cymryd rhan yn llawn ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r rhaglenni integreiddio rhagorol yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth glir o hawliau pobl eraill a phwysigrwydd gwerthfawrogi pawb yn gyfartal.

Mae gan yr ysgol drefniadau da ar gyfer datblygu medrau bywyd disgyblion. Mae disgyblion hŷn yn cymryd rhan mewn gweithdai gwaith coed, coginio a chymorth cyntaf mewn partneriaeth â'r sefydliad hyfforddi lleol. Mae'r profiadau hyn yn datblygu medrau rhifedd, llythrennedd a meithrin tîm disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'r ysgol yn cefnogi datblygiad dealltwriaeth ysbrydol a moesol disgyblion yn dda trwy ddarparu gwasanaethau addoli ar y cyd rheolaidd a thrwy weithgareddau cwricwlaidd. Ceir cyfleoedd cyfoethog i hyrwyddo datblygiad diwylliannol a chreadigol disgyblion trwy gystadlu mewn Eisteddfodau, gan weithio gyda chwmni theatr ac astudio gwaith arlunwyr o Gymru.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'n annog disgyblion i fwyta diet iach trwy ddarparu siop ffrwythau bob dydd. Mae'r gwersi nofio a'r clybiau allgyrsiol rheolaidd fel pêl-rwyd a dawnsio hip-hop yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd cadw'n heini yn llwyddiannus.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn ymgysylltu'n llwyddiannus â phob un o'r staff i greu ethos ysgol gyfan sydd â lles disgyblion wrth wraidd gwaith yr ysgol. Mae ganddo weledigaeth glir ar gyfer dyfodol yr ysgol, sy'n cael ei rhannu gan y staff, y llywodraethwyr a'r rhieni. Mae'r uwch dîm rheoli yn dosbarthu eu harbenigedd yn dda ar draws eu meysydd cyfrifoldeb ac yn derbyn cymorth da iawn gan aelodau staff. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol fel tîm. Mae pob un o'r staff yn dangos ymrwymiad

cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Mae hyn yn hynod amlwg yn y ffocws cryf ar annog dysgwyr i gyflawni safonau da mewn llythrennedd, rhifedd, TGCh a lles.

Mae system gadarn ar gyfer rheoli perfformiad yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad proffesiynol pob un o'r staff. Mae'r broses hon yn cysylltu'n effeithiol â blaenoriaethau'r ysgol, ac yn cael effaith gadarnhaol ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion. Mae cyfleoedd gwerthfawr i bob aelod o staff rannu profiadau ac arfer dda gyda chydweithwyr yn yr ysgol, a gydag ysgolion eraill. Mae hyn yn helpu datblygu trefniadau integreiddio effeithiol iawn rhwng disgyblion sy'n mynychu'r dosbarthiadau adnoddau a'r dosbarthiadau prif ffrwd.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol ac yn wybodus am ei pherfformiad. Mae mwyafrif y llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, ac mae ychydig ohonynt yn ymgymryd ag ystod bwrpasol o weithgareddau, er enghraifft teithiau dysgu. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i herio'r ysgol am ei pherfformiad.

Mae'r broses hunanwerthuso yn datblygu'n dda. Mae pob aelod o staff yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Defnyddiant ystod addas o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys arsylwadau gwersi, dadansoddi data yn drylwyr a chraffu ar waith disgyblion, i bennu blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae gan yr ysgol hanes da o ran sicrhau gwelliant ac mae cau'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn enghraifft dda o hyn.

Mae arweinwyr yn rheoli a monitro gwariant a chyllid yn ddarbodus i sicrhau eu bod yn eu defnyddio yn y ffordd orau i gynnal a gwella safonau. Maent yn sicrhau bod cyllid yn cyfateb yn briodol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Gwnânt ddefnydd da iawn o'r grant datblygu disgyblion i fodloni anghenion disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae disgyblion sy'n agored i niwed yn elwa ar ystod eang o weithgareddau cymorth effeithiol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu eu lles, eu medrau llythrennedd a rhifedd. Maent yn cynllunio'n gynhwysfawr iawn i leihau effaith andwyol tlodi ar safonau a lles disgyblion.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/04/2019